

Helpwch ni
yn y frwydr
yn erbyn
COVID-19



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe

Swansea Bay University
Health Board

Adroddiad Uchafbwyntiau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe 2020-21



Cynnwys

Eitem	Tudalen
Rhagair gan y Cadeirydd	3
Ynghylch y Bwrdd Iechyd	6
Covid-19	8
Cyllid a Pherfformiad	13
Cyflawniadau Eraill	15
Iechyd a Lles Staff	17
Ein Helusen	20
Y Flwyddyn Nesaf	22

Rhagair gan y Cadeirydd



Croeso i'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2020-21. Hoffwn ddechrau trwy groesawu Mark Hackett, a ddechreuodd yn ei swydd fel ein Prif Weithredwr ym mis Ionawr 2021, a thrwy ddiolch i Tracy Myhill, ei ragflaenydd, am arwain y bwrdd iechyd trwy flwyddyn a fu'n hynod anodd i bawb. Rwyf hefyd yn falch iawn o groesawu Stephen Spill fel Is-gadeirydd.

Mae'r ffordd y mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cael ei drawsnewid gan bandemig Covid-19. Mae wedi cael effaith andwyol - mae bron 30,000 o bobl ledled Bae Abertawe wedi profi'n bositif am y feirws hyd yma ac, yn drasig, bu farw dros 1,000 yn sgil Covid-19. Mae ein hymateb i drin a lliniaru risgiau Covid-19 wedi dod ar gost enfawr i'n gallu i

ddarparu gwasanaethau diagnostig a thriniaethau arferol. Bydd yr effeithiau cymdeithasol ehangach - ar yr economi, ar gyflogaeth ac ar addysg – ac effeithiau'r ynysu cymdeithasol a ddigwyddodd yn sgil y pandemig yn cael eu teimlo'n eang ac am flynyddoedd lawer i ddod.

Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff am y gwaith caled, yr ymrwymiad a'r cydnheredd y maent wedi'u dangos trwy gydol y pandemig hyd yma, a hynny'n aml gan aberthu'n bersonol.

Yn anffodus, rydym wedi colli cydweithwyr i'r feirws, ac rwy'n anfon fy nghydymdeimlad diffuant i'w teuluoedd, eu ffrindiau a'r bobl y buont yn gweithio gyda nhw.

Mae ymrwymiad ein staff wedi'i gydnabod mewn nifer o wobrau a dderbyniwyd eleni. Enwyd Rea Pugh-Davies (yn y llun) yn Weithiwr Cymorth Nyrsio Gorau yng Ngwobrau'r RCNi. Enillodd ein timau iechyd a lles galwedigaethol eu categorïau perthnasol yng Ngwobrau Iechyd a Lles Galwedigaethol 2020 am eu hymatebion i Covid-19. At hynny, mae nifer o staff, yn cynnwys sawl un sy'n gweithio ar y rheng flaen, wedi'u cydnabod ar Restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines a Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi ennill gwobr eleni, gan chwifio'r faner ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.



Erbyn Ebrill 2020, roedd ein hymateb i'r pandemig ar ei anterth, gyda strwythur gorchymyn a rheoli pwrpasol wedi'i sefydlu. Ymhlith y mesurau a roddwyd ar waith yn gyflym iawn yn ystod y flwyddyn oedd y gwaith o sefydlu dau ysbyty maes, a llunio a darparu system brofi ac olrhain gynhwysfawr mewn cydweithrediad â'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol. Cafodd ardaloedd bob dydd yn ein hysbytai eu

hailgynllunio er mwyn darparu lleoedd ychwanegol a mwy diogel i drin cleifion â Covid-19 a chleifion eraill, gan gynnwys trawsnewid yr adran cleifion allanol yn Ysbyty Treforys yn welyau gofal critigol ychwanegol. Cyfrannodd yr holl fesurau hyn at ein gallu i ddelio â dwy don sylweddol iawn o'r feirws ac i gyfyngu ar ymlediad ehangach y pandemig.



Yn chwarter olaf y flwyddyn, rhoddwyd lle blaenllaw i'r rhaglen brechu torfol. Rwy'n hynod falch o'r cynnydd a wnaed ar draws Bae Abertawe ac yn ddiolchgar iawn i bawb a fu'n rhan o'r ymdrech frechu.

Yn y llun: Banessa Khatun, 64, o Abertawe, yn derbyn ei brechiad Covid cyntaf yn y Cerbyd Brechu y tu allan i Fosg Abertawe ym mis Mawrth 2021. Yn y llun hefyd mae'r Preifat Josh Morris, 4 Catrawd Feddygol Arfog.

Trwy gydol y flwyddyn, achubwyd ar y cyfle hefyd i gyflymu rhai o'n cynlluniau tymor hir er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n dinasyddion. Er enghraifft, mae gennym bellach adran achosion brys plant yn Ysbyty Treforys, felly mae gan ein cleifion ieuengaf le addas i gael eu gweld pan fydd angen iddynt ymweld â ni'n annisgwyl.

Ar wahân i Covid-19, bu rhai cyflawniadau pwysig eraill y mae'n bwysig tynnu sylw atynt, yn enwedig yr isgyfeirio o 'ymyrraeth wedi'i thargedu' i 'fonitro gwell'. Mae'r ddau statws yn rhai y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi i fyrddau iechyd pan fydd yn teimlo bod angen craffu'n fanylach ar eu perfformiad. Mae israddio ein statws uwchgyfeirio yn cydnabod y cynnydd a wnaed cyn ac yn ystod y pandemig i wella ein perfformiad gweithredol ac ariannol. Er ein bod yn gwybod bod llawer mwy i'w wneud o hyd, mae hon yn garreg filltir bwysig ac mae'n dangos ein bod ar y trywydd iawn. Fe wnaethom hefyd agor Uned Mamau a Babanod Amenedigol gyntaf Cymru i alluogi mamau â phryderon iechyd meddwl gael lle i aros a derbyn triniaeth yn agos at eu cartref, gan gadw eu babanod gyda nhw.

Hoffwn ddiolch i chi, ein cyhoedd, am y gefnogaeth rydych chi wedi'i dangos i ni trwy gydol y flwyddyn hon wrth i ni wynebu Covid-19 gyda'n gilydd. Nid yn unig trwy ddilyn y canllawiau i leihau lledaeniad y feirws, ond hefyd trwy gyfrannu at ein cynlluniau codi arian, yn enwedig y rhestr ddymuniadau ar Amazon, a welodd filoedd o eitemau hanfodol fel pethau ymolchi, dillad nos a dillad isaf yn cael eu prynu ar gyfer ein cleifion mewnol ar adegau pan na allai anwyliaid ymweld â nhw a mynd ag eitemau iddyn nhw. Roedd yr amser a gymeroch chi bob nos iau i glapio i'ch gofalu, ynghyd â'r cardiau a'r anrhegion a anfonwyd gennych, yn helpu ein staff i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn ystod adegau anodd iawn.

Rwyf hefyd yn sylweddoli y bydd y pandemig wedi effeithio'n bersonol ar gynifer yn ein cymunedau lleol hyd yn hyn: trwy brofedigaeth; trwy salwch; trwy gael eu

hynysu'n fwy; trwy newidiadau mewn cyflogaeth; a thrwy reoli addysg gartref i enwi ond rhai pethau. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda'n cymunedau i gwrdd â'r heriau sydd o'n blaenau wrth adfer o'r pandemig.

Mae gennym ffordd hir o'n blaenau y flwyddyn nesaf wrth i ni anelu at symud o'r cam o ymateb i'r pandemig ac i'r cyfnod adfer, Mae'r nod yn dod yn fwy realistig yn sgil y cynnydd rhagorol sy'n cael ei wneud i ddarparu'r brechlynnau. Mae ein cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 yn nodi nifer o flaenoriaethau. Rydym yn gwybod y bydd Covid-19 gyda ni am amser hir iawn a bydd ein ffocws yn parhau i sicrhau ein bod yn gweithio mor effeithiol a diogel ag y gallwn. Ochr yn ochr â'r ymateb parhaus i'r pandemig, mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn sefydlogi gwasanaethau a gofal - lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol, a chan gydnabod lles staff – yn ogystal â gyrru gwelliannau uchelgeisiol yn y gwasanaethau sydd wedi'u blaenoriaethu, er mwyn gwella ansawdd y gofal a'r canlyniadau i'n poblogaeth.

Diolch i chi i gyd unwaith eto. Cadwch yn ddiogel.



Emma Woollett
Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ynghylch y Bwrdd Iechyd

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cynllunio, yn sicrhau ac yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, ac yn gweithio i wella eu hiechyd a'u lles. Rydym yn gwasanaethu poblogaeth o tua 390,000, mae gennym gyllideb o tua £1.1 biliwn a chyflogir bron 13,500 o staff.

Mae gennym dri ysbyty mawr sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau: ysbytai Treforys a Singleton yn Abertawe ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Maglan, Port Talbot. Mae gennym hefyd ysbyty cymunedol yng Ngorseinion a chanolfannau adnoddau gofal sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau clinigol y tu hwnt i'r prif ysbytai.



Rydym yn darparu dros 70 o wasanaethau arbenigol i boblogaethau De-orllewin Cymru, De Cymru, a rhai gwasanaethau penodol ar raddfa genedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu ein rhagoriaeth glinigol a'n hystod amrywiol o wasanaethau lleol a thrydyddol i bobl Cymru a thu hwnt.

Mae contractwyr annibynnol ar gyfer gofal sylfaenol yn chwarae rhan hanfodol yng ngofal ein poblogaeth, ac mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau gan 49 o bractisau meddygon teulu, 31 o bractisau optometreg, 72 o bractisau deintyddol a 92 o fferyllfeydd cymunedol ar draws ein rhanbarth.

Darperir gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol ar gyfer preswylwyr yn ardal Bae Abertawe, ac rydym yn darparu gwasanaeth rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu yn ogystal ag ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl fforensig.

Darperir pedwar gwasanaeth Cymru gyfan gan y bwrdd iechyd:

- Y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) - mae'n darparu penderfyniadau blaengar a gofal critigol ar gyfer argyfyngau sy'n bygwth bywyd neu aelodau o'r corff, pan fo angen trosglwyddo cleifion i gyfleuster addas er mwyn cael triniaeth lle mae amser o'r pwys mwyaf.
- Rhwydwaith Cyflawni Gweithredol ar gyfer y Rhwydwaith Trawma Mawr – dyma'r swyddogaeth reoli sy'n goruchwyllo'r Rhwydwaith Trawma Mawr, gan

gydlynu'r gwaith o drosglwyddo cleifion rhwng y brif ganolfan drawma, yr unedau trawma a'r ysbytai lleol a gwella'r hyn a ddysgir am drawma mawr er mwyn gwella'r canlyniadau i gleifion, gwella profiad y cleifion a gwella safonau ansawdd o'r adeg pan fydd cleifion yn cael eu clwyfo hyd nes y byddant yn gwella.

- Rhwydwaith Lymffoedema – mae'n rheoli Tîm Cenedlaethol Rhwydwaith Lymffoedema Cymru.
- Uned Gyflawni GIG Cymru - mae'n darparu cefnogaeth broffesiynol i Lywodraeth Cymru i fonitro a rheoli perfformiad ar draws GIG Cymru.

Er mwyn darparu gwasanaethau iechyd a lles effeithiol i'n poblogaeth, mae'n rhaid i ni weithio mewn cydweithrediad agos â phartneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol Abertawe a Castell-nedd Port Talbot, sefydliadau'r trydydd sector, prifysgolion, byrddau iechyd eraill a'n cyhoedd. Rydyn ni'n rhoi pwys mawr ar ein haelodaeth o fyrdau partneriaeth lleol, gan gynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

Rydym hefyd yn rhan o Gydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH), sy'n gydweithrediad unigryw rhwng tri phartner: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phrifysgol Abertawe. Mae'n rhychwantu ardaloedd awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a'i nod yw gwella iechyd, cyfoeth a lles rhanbarth y De-orllewin.

Covid-19

Fel y gellid ei ddisgwyl, canolbwyntiwyd yn bennaf ar yr ymateb i Covid-19 yn 2020-21. Fe roesom ein strwythur gorchymyn a rheoli yn ei le ar 31 Ionawr 2020 ac mae yn ei le o hyd, gan sicrhau ein bod yn rheoli'r pandemig, yn ogystal ag yn parhau hyd eithaf ein gallu i ddarparu gwasanaethau hanfodol nad ydynt yn ymwneud â Covid. Mae rhai o'n cyflawniadau'n cynnwys:

- Sefydlu canolfannau profi drwy'r ffenestr ym Margam (*yn y llun*) a Stadiwm Liberty, ac yna gyfleusterau galw heibio ac unedau profi symudol;
- Llwybr carlam ar gyfer hyfforddiant sefydlu staff. Cafodd ei lunio'n arbennig ar gyfer gweithwyr gofal iechyd newydd, gweithwyr gofal iechyd sy'n dychwelyd a myfyrwyr, fel y gallant ddechrau gweithio'n gynt. Gan fod yr hyfforddiant yn digwydd mewn lleoliad allanol mawr, mae hefyd yn golygu ein bod yn osgoi defnyddio ardaloedd clinigol ar ei gyfer;
- Arwain y gwaith o gyflwyno rhaglen frechu Covid-19 o'r radd flaenaf yn lleol;
- Agor uned argyfwng plant a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer ein cleifion ieuengaf pan fydd angen ein gofal arnynt yn annisgwyl;
- Creu dau ysbyty maes, un yn Llandarsi a'r llall yn Stiwdios y Bae, o fewn ychydig wythnosau i'w gilydd, er mwyn darparu gwelyau ychwanegol (yn y llun isod). Hyd yma, ni fu angen i ni dderbyn unrhyw gleifion mewnol i'r ysbytai hyn. O ganlyniad, dychwelwyd safle Llandarsi i'r perchnogion, tra bo Ysbyty Maes y Bae yn rhoi cymorth ar gyfer ein meysydd gweithredu eraill, gan gynnwys darparu profion gwaed a darparu rhaglen frechu Covid-19;





- Creu ystafell aros rithwir ar gyfer yr uned mân anafiadau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, fel y gall cleifion risg isel aros yn eu car nes ein bod yn barod ar eu cyfer;
- Trawsnewid yr ardaloedd cleifion allanol yn Ysbyty Treforys yn ardaloedd gofal critigol, fel bod gennym welyau ychwanegol i ofalu am y cleifion mwyaf sâl;
- Sefydlu'r Uned Asesu Anadlol yn Ysbyty Treforys. Nid yn unig y mae'r Uned yn swabio pobl yr amheuir bod Covid-19 arnynt, fel eu bod yn cael eu derbyn neu eu rhyddhau yn ôl yr angen, ond mae hefyd yn rhoi cymorth i'r rhai sydd eisoes â chyflyrau ar yr ysgyfaint, fel clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, er mwyn lleihau'r angen iddynt fynd i'r ysbyty;
- Sefydlwyd gwir ddull o ofalu ar y cyd am bobl yn ein lleoliadau cymunedol mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn awdurdodau lleol, ac o roi cymorth sylweddol i gartrefi gofal.

Dyma rai enghreifftiau'n unig o sut y gwnaethom newid ein dulliau cyffredinol i sicrhau ein bod yn gallu rhoi cymorth i gleifion â Covid-19 a chleifion eraill. Fodd bynnag, gwnaeth ein staff ymroddedig hefyd ddarganfod ffyrdd o wneud pethau'n wahanol o fewn eu gwasanaethau eu hunain er mwyn gofalu am gleifion:

- Cafodd Rosie y ddoli glwt ei chyflwyno i'r Tîm Ffisiotherapi Pediatrig, fel y gallai staff ddangos i rieni sut i wneud yr ymarferion gyda'u plant gartref wedi i apwyntiadau wyneb yn wyneb gael eu hatal. *(Gellir gweld Rosie yn y llun gyda'i gwneuthurwraig, Ceri Salman, sy'n Ffisiotherapydd Pediatrig);*



- Codwyd dwy babell fawr wedi'u gwresogi yn yr Uned Iechyd Meddwl Pobl Hŷn yn Ysbyty Cefn Coed, gan helpu teuluoedd i ymweld ag anwyliaid wyneb yn wyneb heb i'r cleifion orfod gadael y wardiau pan oedd y cyfyngiadau symud cenedlaethol yn caniatáu;
- Bellach, gellir gwneud biopsïau nod lymff sentinel a thriniaethau canser y croen cymhleth tra bydd cleifion yn effro. Cyn hyn, gwnaed y triniaethau dan anaesthetic cyffredinol, ond pan fu'n rhaid atal y rhain dros dro oherwydd Covid-19, datblygodd y tîm llawfeddygaeth blastig ffordd wahanol o weithio;
- Cafodd yr uned niwro-adsefydlu yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ei hadleoli i ran wahanol o'r safle er mwyn cefnogi'r ymateb i'r pandemig. Gan fod ardal awyr agored ar gael y tu allan i'r lleoliad newydd, mae'n cael ei defnyddio fel rhan o therapi'r cleifion, sy'n cynnwys plannu gardd lysiau;
- Ail-luniwyd y gwasanaethau seicoleg er mwyn defnyddio technoleg rithwir i ddarparu asesiadau ac ymyriadau pan nad oedd yn bosibl cael cyswllt wyneb yn wyneb ar gyfer sesiynau unigol a grŵp. Er enghraifft, datblygodd a chynhaliodd y gwasanaeth niwro-seicoleg rhanbarthol gyfres o ymyriadau seico-gymdeithasol rhithwir ar gyfer cleifion sy'n byw gydag anaf i'r ymennydd, gan ganolbwyntio ar les drwy gydol y pandemig.

Mae iechyd a lles staff hefyd wedi bod yn rhan allweddol o'n hymateb wrth i ni barhau i weithio trwy'r adegau mwyaf heriol:

- Cafodd gwaith caled y staff sy'n datblygu a darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol a lles staff ei gydnabod mewn gwobrau cenedlaethol (Gwobrau Iechyd a Lles Galwedigaethol Cenedlaethol *Personnel Today* 2020). Enillodd gwasanaeth lles y bwrdd iechyd 'Y Fenter Amlddisgyblaethol Orau' ac enillodd y tîm iechyd galwedigaethol y wobr 'Tîm Iechyd Galwedigaethol y Flwyddyn (Sector Cyhoeddus)'. Y bwrdd iechyd yw'r sefydliad cyntaf i ennill dwy wobr yn yr un flwyddyn ac roeddem ar y rhestr fer yn erbyn sefydliadau fel John Lewis a'r Adran Gwaith a Phensiynau.



Yn y llun: Sarah Davies, Uwch Reolwr Nyrsio Iechyd Galwedigaethol gyda'r wobr ar gyfer iechyd galwedigaethol)

- Rhoddwyd gwasanaethau iechyd a lles pwrpasol yn eu lle i gefnogi staff wrth iddynt weithio trwy'r pandemig, gan gynnwys seicolegwyr, cymorth myfyrio a chymorth trawma pwrpasol, a mynediad at gymorth ysbrydol ac ystafelloedd adfer;
- Daeth côr adran achosion brys Ysbyty Treforys yn enwog ledled y byd ar ôl i filoedd ymateb i fideo ohonynt yn canu clasur y Jacksons 'I'll Be There'. Arweiniodd hyn at wahoddiad i ganu gyda Heather Smalls ar fersiwn o'i gân 'Proud';

Oherwydd y cyfyngiadau o ran cadw pellter cymdeithasol a'r angen i aros gartref cymaint â phosibl, bu'n rhaid gweithio'n rhithwir a datblygwyd nifer o fentrau:

- Ni oedd y bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r ap *Consultant Connect*, sy'n galluogi meddygon teulu, parafeddygon a staff clinigol eraill sy'n gweithio yn y gymuned i ofyn am gyngor gan feddygon ymgynghorol, gan helpu i atal ymyriadau diangen;
- Mae nifer o arbenigeddau, gan gynnwys gwasanaethau llosgiadau a llawfeddygaeth blastig, gwasanaethau seicoleg a gwasanaethau plant yn cynnal apwyntiadau rhithwir fel y gall cleifion weld eu harbenigwr heb orfod mynd i'r ysbyty;

- Rydym wedi cyflwyno nifer o systemau newydd fel bod meddygon sydd naill ai'n cysgodi neu'n gweithio gartref er mwyn lleihau nifer y bobl yn yr ysbytai, yn gallu ymweld yn rhithwir â chleifion ar y wardiau, gan sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad cleifion.



Yn y llun: Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn Ysbyty Maes Llandarsi ym mis Mehefin 2020.

Cyllid a Pherfformiad

Ar gyfer 2020-21, roedd gennym gyllideb o £1.1 biliwn a'r sefyllfa ariannol a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn oedd gorwariant o £24.304m. Roedd hyn yn unol â'r rhagolwg a wnaed ar ddechrau'r flwyddyn ond roedd yn torri ein dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb, ac roedd hynny hefyd yn wir am ein methiant i gyflawni cynllun tymor canolog integredig cymeradwy (IMTP - cynllun tair blynedd).

Am hanner cyntaf y flwyddyn, adroddwyd rhagolwg diwedd blwyddyn llawer uwch i'r bwrdd. Roedd hyn oherwydd sawl gwariant misol uchel i ymateb i'r pandemig a chefnogi mentrau fel creu ysbytai maes a rhaglen brofi. Fodd bynnag, cawsom £157.496m o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gan ei gwneud yn bosib i'r sefyllfa ariannol ddechrau cael ei hadfer.

O ran perfformiad, cafwyd nifer o fentrau yn ystod gaeaf 2019 a fu o gymorth i fynd i'r afael â'r heriau o fewn gofal heb ei drefnu, a gwelwyd peth cynnydd yn ein perfformiad cyn dechrau 2020-21. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi golygu i ni orfod newid ein ffordd o weithio, gyda'r adran achosion brys yn cael ei hailgynllunio er mwyn darparu yn y ffordd fwyaf diogel bosib ar gyfer cleifion Covid-19 a chleifion eraill. Ar ddechrau'r don gyntaf, gwelwyd gostyngiad amlwg yn y nifer a oedd yn dod i'r adran ac fe wellodd perfformiad. Wrth i'r pwysau ar y system ddal i gynyddu, ni wnaeth hyn barhau, a gwelwyd mwy o gleifion difrifol wael yn dod i'r adran, naill ai oherwydd y feirws neu am resymau eraill. Datblygwyd nifer o fentrau i gefnogi gofal heb ei drefnu, gan gynnwys adeilad dros dro ar gyfer y cleifion a oedd yn cyrraedd mewn ambiwlansys wrth iddynt aros i ddod i'r adran, er mwyn gallu glanhau'r cerbydau a'u rhyddhau ar gyfer yr alwad nesaf. Trefnwyd cefnogaeth ychwanegol i'r adran hefyd ar gyfer gwaith clercol, gwaith therapi, gofal lliniarol a gweithwyr cymdeithasol. Datblygwyd canolfan 'cyswllt cyntaf' a chanolfan gofal sylfaenol brys hefyd tua diwedd y flwyddyn er mwyn helpu i leihau'r nifer a oedd yn mynd i'r ysbyty'n ddiangen a'u galluogi i gael eu gweld mewn lleoliadau gofal sylfaenol yn lle hynny.

Bu gofal wedi'i gynllunio yn faes arbennig o anodd, am i'r holl ofal nad oedd yn ofal brys gael ei atal ar ddechrau'r pandemig, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Er i ni barhau i ddarparu gofal brys a gofal ar gyfer yr argyfyngau mwyaf, ac er i ni ailgychwyn gwasanaethau eraill yn dilyn ton gyntaf y pandemig, rhaid i hyn fod ar lefel is o hyd, ac mae'r amser y mae cleifion yn aros am driniaeth ddewisol yn cynyddu. Cafwyd llai o atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn ystod y don gyntaf, a allai hefyd arwain at fwy o alw unwaith y bydd pobl yn teimlo'n fwy hyderus i ddechrau ceisio cymorth, er bod defnyddio dulliau digidol, fel *Consultant Connect* (lle gall meddygon teulu gael barn gan feddyg ymgynghorol ar unwaith) yn tueddu i leihau atgyfeiriadau, gan yr ymdrinnir â phroblemau heb yr angen am apwyntiadau cleifion allanol. Mae apwyntiadau cleifion allanol yn rhedeg ar gyfradd is, er y gellir darparu nifer sylweddol o'r apwyntiadau hyn yn rhithwir bellach. Ein prif ffocws trwy gydol y flwyddyn fu cyfyngu ar y niwed a oedd yn cael ei achosi i'r rhai yr oedd angen triniaethau dewisol arnynt. Felly, wrth i'r gwasanaethau ailgychwyn, gwelwyd cleifion ar sail blaenoriaeth glinigol.

Bydd gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio, ynghyd â gwasanaethau canser, yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer y cynllun blynyddol yn 2021-22. Rydym hefyd wedi

nodi pum blaenoriaeth ansawdd allweddol: rheoli heintiau; lleihau cwympiadau; atal hunanladdiadau; sepsis a gofal diwedd oes. Cydnabyddir mai parhau i ganolbwyntio ar Covid-19 y byddwn yn ystod y misoedd cyntaf, ond rydym hefyd yn canolbwyntio ar symud tuag at adferiad er mwyn gwneud cynnydd o ran y blaenoriaethau hyn a blaenoriaethau allweddol eraill dros y flwyddyn.

Cyflawniadau Eraill

Er y canolbwyntiwyd llawer ar Covid-19 yn ystod y flwyddyn, bu cyflawniadau eraill ac rydym yn falch iawn o'r rhain:

- Ysbyty Treforys fydd yr ysbyty cyntaf yng Nghymru i gael ei fferm solar ei hun pan fydd y gwaith yn gorffen ar y prosiect eleni. Nid yn unig y bydd hyn yn golygu 3,000 tonnall yn llai o allyriadau carbon bob blwyddyn, ond bydd hefyd yn golygu arbedion o £1.5m bob blwyddyn;



- Agorwyd yr uned gyntaf gyntaf i famau a babanod yng Nghymru i helpu menywod â phroblemau iechyd meddwl difrifol yn ystod beichiogrwydd a/neu ar ôl rhoi genedigaeth. Gall mamau a'u babanod gael gofal arbenigol fel cleifion mewnol, yn hytrach na gorfod teithio i Loegr;
- Mae'r gwasanaeth allgymorth ffisiotherapi yn rhoi cymorth yn y cartref i gleifion strôc, gan eu helpu i ailddysgu symudiadau fel mynd i mewn ac allan o'r gwely, yn ogystal â'u helpu i adennill mwy o annibyniaeth a lleihau'r risg o fod angen cymorth iechyd a gofal cymdeithasol tymor hir;
- Cafodd ambiwlans ei droi'n uned symudol ar gyfer gwasanaethau iechyd rhywiol (yn y llun isod) i ddarparu gwasanaeth allgymorth, yn enwedig i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y cymunedau lleol, fel y digartref a gweithwyr rhyw;



- Bellach mae gan y gwasanaeth asesu ar gyfer pobl hŷn ei adran achosion brys ei hun, gyda'r nod o ddarparu asesiadau arbenigol i helpu pobl hŷn i ddychwelyd adref yn ddiogel yn hytrach na chael eu derbyn i'r ysbyty. Mae'r ardal newydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer cleifion hŷn i'w helpu i deimlo'n dawelach eu meddwl. Yno, maen nhw'n derbyn asesiad llawn i benderfynu ar unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i'w triniaeth, yn ogystal â phenderfynu sut i fynd i'r afael â'r hyn a ddaeth â nhw i'r ysbyty yn y lle cyntaf;
- Mae gwasanaeth iechyd meddwl newydd y tu allan i oriau'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â'r elusen Hafal i ddarparu cefnogaeth ymarferol, therapiwtig a chyfannol i bobl sydd mewn perygl o argyfwng iechyd meddwl, gan eu helpu i aros gartref yn hytrach na chael eu derbyn i'r ysbyty;
- Mae dros 2,000 o bobl wedi cofrestru ar Borth Cleifion Bae Abertawe, sef ap sy'n eu galluogi i gyrchu a rhannu gwybodaeth am eu hiechyd a'u lles gyda pherthnasau a staff clinigol;
- Datblygwyd ffordd newydd o werthu tir ac adeiladau nad oes eu hangen arnom mwyach. Cysylltwyd â phob busnes sydd â diddordeb mewn prynu ased o'r fath i weld sut roedd eu defnydd arfaethedig ohono yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bu'r wybodaeth hon o gymorth wedyn i lywio'r broses gynigion, yn hytrach na gwneud penderfyniadau ar sail symiau ariannol yn unig. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi canmol ein dull ac mae'r gwaith o gael gwared ar Fairfield oddi ar dir Ysbyty Cefn Coed i'w gyhoeddi fel astudiaeth achos. Byddwn nawr yn defnyddio dull tebyg ar gyfer cael gwared ar dir ac adeiladau yn y dyfodol;
- Enillodd Tîm Profiad y Claf (yn y llun isod) wobwr genedlaethol Rhwydwaith Profiad y Claf am ei waith yn creu straeon digidol am gleifion a staff ac am y gofal rydyn ni'n ei ddarparu, er mwyn i ni ddysgu o'r rhain a gwneud gwelliannau. Dyma'r tîm cyntaf yn y gwasanaeth gofal iechyd yn y DU i gael hyfforddiant achrededig mewn adrodd straeon digidol ac mae'n darparu hyfforddiant i gydweithwyr yn genedlaethol.



Iechyd a Lles Staff

Ein pobl sy'n gwneud y bwrdd iechyd hwn yr hyn ydyw. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar am y gwaith caled a'r ymrwymiad parhaus a welir bob dydd, yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae lles a chydnerthedd y rhai sy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn bwysig iawn, ac mae rhai o'r datblygiadau rydym wedi'u gwneud i gefnogi, datblygu a chydabod staff yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cyflwyno pecyn llesiant wedi'i ddiweddarau ar gyfer staff i gefnogi eu lles seicolegol, emosiynol a chymdeithasol, a'u hiechyd a'u llesiant. Cynigiwyd nifer o adnoddau ychwanegol gan gynnwys:
 - Hyfforddiant REACTMH® i helpu arweinwyr i gael sgysrsiau 'seicolegol da' i gefnogi eu staff;
 - Laniswyd cwrs lles rhithwir newydd: 'Gofalu Cydnerth yn Null Bae Abertawe'. Mae'r diwrnod astudio rhithwir hwn yn agored i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr;
 - Mae 'Cymryd Gofal wrth Roi Gofal' yn ddull seicolegol wedi'i hwyluso sy'n canolbwyntio ar 'dosturi' ym mhopeth rydym yn ei wneud. Mae'r ffocws pennaf ar y rôl o ofalu ac ar effeithiau gofalu i staff mewn unrhyw wasanaeth ac mae'n helpu staff i fyfrio ar berthnasoddd yn y gwaith, gofynion eu swyddi a hunanofal a lles;
- Rhoi model rheoli trawma (TRiM) ar waith yn y bwrdd iechyd. Nod y model TRiM yw cadw gweithwyr yn iach yn feddylol, yn gydnerth ac yn gweithio. Mae hynny'n digwydd drwy roi cefnogaeth a gwybodaeth, yn ogystal â thrwy adnabod yn ddigon buan y rhai nad ydynt yn ymdopi fel y gellir eu cyfeirio at gymorth arbenigol. Mae'n helpu i dorri stigma iechyd meddwl a'r angen i 'rygnu ymlaen' beth bynnag yw'r amgylchiadau. Mae hefyd yn lleihau nifer y staff rheng flaen sy'n cymryd absenoldeb salwch oherwydd straen;
- Darparu llety mewn gwestai ar gyfer staff a oedd yn poeni am drosglwyddo'r feirws i'r teulu gartref;
- Cynnal ein 'Gwobrau Byw Ein Gwerthoedd' yn rhithwir am y tro cyntaf erioed, gan recordio'r seremoni o flaen llaw. Roedd ar gael i'r holl staff wyllo am fis wedyn, gan roi hwb hollbwysig i forâl. Derbyniwyd 151 o enwebiadau ar gyfer y gwobrau, pleidleisiodd 663 o staff unigol dros y rheini ar y rhestr fer a chafwyd cyfanswm o 5,058 o bleidleisiau. Edrychwyd ar fersiwn Saesneg y digwyddiad 570 o weithiau ac edrychwyd ar y fersiwn Gymraeg 83 o weithiau.



- Cyflwyno rhaglen hyfforddiant galwedigaethol. Rhwng Ebrill 2020 a Ionawr 2021, cafwyd 134 o gyfranogwyr. Cafodd 80 swyddi gyda'r bwrdd iechyd, cafwyd 22 swyddi gyda sefydliadau allanol a threfnwyd bod 15 o gyfranogwyr ychwanegol ar gyfer Mawrth 2021;
- Ar hyn o bryd, mae'r Academi Brentisiaethau yn rownd derfynol y categori 'Cyflogwr Mawr a Macro-gyflogwr y Flwyddyn' yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru. Ddiwedd Ionawr 2021, roedd gan y bwrdd iechyd 31 o brentisiaid mewn swyddi; 11 unigolyn yn aros am ddyddiad cychwyn; tri hysbyseb; tri phrentisiaeth ar y gweill a 104 o brentisiaid wedi llwyddo i ennill swyddi parhaol. Dathlodd yr Academi Brentisiaethau Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau trwy gynnal ymweliad rhithwir â Phrif Weinidog Cymru. Cafwyd cyfle perffaith i dynnu sylw at fuddion a llwyddiannau'r rhaglen yn ein sefydliad;
- Ym mis Mawrth 2021, cyflwynwyd pecyn rhithwir ar gyfer y gwobrau am wasanaeth hir. Mae'r rhain yn wobrau sy'n cydnabod staff sydd wedi rhoi dros 25 a thros 40 mlynedd o wasanaeth. Cynhaliwyd hyn ar gyfer staff a oedd yn gymwys y llynedd ac eleni, sef cyfanswm o 604 aelod o staff;
- Ym mis Tachwedd 2020, laniswyd cynllun peilot 12 mis o'r enw e-Gwtsh, sy'n ffordd i gydweithwyr gydnabod ei gilydd. Mae'r cynllun yn cyd-fynd ag astudiaethau sy'n awgrymu y gall diolchgarwch a gwerthfawrogiad wella lles ac iechyd corfforol, cryfhau perthnasoedd cymdeithasol a'n helpu i ymdopi ag



adegaau llawn straen yn ein bywydau. Mae hefyd yn fwy darbodus a hylan nag anfon cerdyn papur. Ers ei lansio, anfonwyd 1,148 o negeseuon e-Gwtsh;

- Rhwng Mehefin 29 a Gorffennaf 31, cynhaliwyd arolwg am les a gweithio gartref yn ystod pandemig Covid-19. Cwblhawyd 1,633 o arolygon ac mae'r adborth wedi helpu i benderfynu ymestyn y cymorth ar gyfer lles, yn cynnwys y llinell lles i staff, hyfforddiant trauma i arweinwyr a rheolwyr, rowndiau 'Cymryd Gofal wrth Roi Gofal' a chefnogaeth a hyfforddiant ychwanegol ar-lein. Dylanwadodd y canlyniadau hefyd ar ddull y bwrdd iechyd o ddatblygu'r fframwaith gweithio

hyblyg a fydd yn nodi canllawiau i gefnogi gweithio cyfunol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r prosiect mannau gwyrdd, mewn partneriaeth â Caru Natur Cymru, yn symud yn ei flaen ar draws ein safleoedd gan ddechrau yn ysbytai Treforys,

Singleton a Chefn Coed, er mwyn datblygu ardaloedd awyr agored er budd iechyd a lles staff a defnyddwyr gwasanaethau.

Yn y llun: Deb Lewis, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Ysbyty Treforys, yn plannu blodyn gwyllt.

Ein Helusen

Bellach, mae ein holl waith codi arian yn cael ei reoli trwy Elusen Iechyd Bae Abertawe, sy'n goruchwyllo'r holl gronfeydd a'r arian a roddir i'n gwasanaethau. Bu hon yn flwyddyn anhygoel yn gyffredinol o ran y rhoddion a roddwyd i'r GIG, yn enwedig yn dilyn ymdrechion rhyfeddol y Capten Syr Tom Moore, a gododd dros £33m trwy gerdded o amgylch o'i ardd. Nid fe oedd yr unig un i ddangos cefnogaeth a gwerthfawrogiad fel hyn i'r staff ar y rheng flaen a dyma rai o uchafbwyntiau ein helusen:

- Gwnaed cais llwyddiannus am grantiau gwerth dros hanner miliwn o bunnoedd gan *NHS Charities Together* i gefnogi ein cleifion a'n staff trwy'r pandemig;
- Ar ddechrau Covid-19, lluniwyd rhestr ddymuniadau ar Amazon ar gyfer rhoddion gan unigolion er mwyn cefnogi ein cleifion. Yn sgil haelioni busnesau cyhoeddus a lleol, cawsom werth dros £200,000 o eitemau. Roedd y rhain yn cynnwys cyfraniadau gan Fosg Abertawe, a fu'n dosbarthu 200 bocs o brydau wedi'u coginio a dŵr i staff yn Ysbyty Treforys bob wythnos am wythnosau lawer, yn sgil gweithio gyda thîm caplaniaeth Fwslimaidd y bwrdd iechyd (*yn y llun ar y dde*).
- Crewyd ymgyrch *JustGiving* sydd wedi codi dros £50,000;



ELUSEN IECHYD
BAE ABERTAWE
SWANSEA BAY
HEALTH CHARITY

- Cynhaliwyd ymgyrch codi arian ar gyfer Cymru gyfan ar *JustGiving*. Codwyd dros £200,000, sydd wedi'i ddosbarthu i bob bwrdd iechyd, i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;

- Gwnaethom gefnogi'r rhai sy'n codi arian i ni drwy ddarparu ffyrdd newydd ac arloesol o godi arian, gan amrywio o wneud bathodynau enfys a rhedeg marathonau yn yr ardd, i gwblhau gwaith pwytho nodeddig;

- Lansiwyd cynllun llwyddiannus ar gyfer ceisiadau am nawdd er mwyn i eitemau allu cyrraedd y rheng flaen yn gyflym, ac er mwyn helpu i gael mentrau mwy o faint ar gyfer lles staff, gan amrywio o recriwtio rhagor o gwnselwyr ar gyfer staff i ariannu gweithdai lles.


Y Flwyddyn Nesaf

Bu hon yn flwyddyn hynod o heriol i'r bwrdd iechyd. Cyflawnwyd llawer ond cafwyd meysydd hefyd lle bydd angen mwy o waith, ac mae'r rhain yn flociau i adeiladu arnynt ar gyfer 2021-22. Wrth i'r flwyddyn ddod i ben, mae'r cynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf wrthi'n cael ei gwblhau ac yn nodi'r hyn rydym ni'n gobeithio ei gyflawni dros y 12 mis nesaf. Mae rhai o'n nodau'n cynnwys gwella profiad clefion trwy ddiogelwch ac ansawdd gwell a llai o niwed; canolbwyntio ar heintiau a geir trwy ofal iechyd; sepsis; gofal diwedd oes; cwympiadau; atal hunanladdiadau; gwella canlyniadau a safonau clinigol.

Rydym hefyd yn anelu at adnewyddu ein hysbytai yn ogystal â'n gwasanaethau gofal sylfaenol, ein gwasanaethau gofal cymunedol a'n gwasanaethau therapi er mwyn cysylltu gwelliannau mewn nifer o feysydd â'i gilydd, yn cynnwys cancer a meddygaeth frys. Ceir cynlluniau hefyd i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu ac i wella'r sefyllfa ariannol, yn ogystal â darparu profiad gwell i staff yn y gwaith.

Un flaenoriaeth hanfodol yw creu system gofal brys ac argyfwng cynaliadwy ond rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni ddarparu gofal wedi'i gynllunio'n gynt, gan fod pobl bellach yn aros yn hirach. Bydd hwn yn gynllun tymor hir ond mae angen i ni ddechrau meddwl nawr sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r achosion sydd wedi cronni.

Yn y cyfan hyn, nid ydym yn anghofio'r angen parhaus i ymateb i Covid-19, gan fod achosion yn parhau'n uchel yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gyda rhai clefion yn gorfod cael eu derbyn i'n hysbytai. Er ein bod yn obeithiol y gallwn ddechrau adfer wedi'r pandemig yn ail hanner 2021-22, bydd ein hymateb iddo'n parhau'n fater y byddwn yn canolbwyntio arno.



Yn y llun: Y gweithiwr cymorth gofal iechyd Melissa Hughes a'r Rhingyll Tom Ratcliffe, 14eg Catrawd Signalau (Rhyfela Electronig), yng nghyfleuster profi Margam ym mis Gorffennaf 2020.